# LLAWLYFR YSGOL PENTRAETH

**ENW A CHYFEIRIAD YR YSGOL:**
Ysgol Gymunedol Pentraeth
Pentraeth
Ynys Môn.
LL75 8UP
*Rhif Ffôn*: 01248 450315
*ebost*: pennaeth.pentraeth@ynysmon.gov.uk
*safwe ysgol*: www.ysgol pentraeth.cymru

## DATGANIAD O FWRIAD YSGOL GYMUNED PENTRAETH

"Sicrhau addysg ddwyieithog o'r safon uchaf bosibl, Addysg a fydd yn galluogi bod pob plentyn yn tyfu i fod yn bersonoliaeth gyflawn ac yn cael cyfle i ddatblygu ac i ymarfer pob dawn. Bydd yr Addysg hon yn cael ei darparu ar gyfer pob plentyn yn yr ysgol, yn ôl oedran, gallu a diddordeb. Bydd yr Addysg yn ei gymhwyso i fod yn aelod llawn o
gymdeithas ddwyieithog."

*Adolygwyd Gorffennaf 2018*

**CROESO I YSGOL PENTRAETH**
**Pennaeth Miss Lynne Jones**

Wrth gyflwyno'r llawlyfr yma "Gwybodaeth i Rieni" fe garem estyn croeso cynnes i'ch plentyn i Ysgol Gymuned Pentraeth. Ein hamcan yn Ysgol Gymunedol Pentraeth yw creu byd diogel, hapus ac annwyl i bob plentyn sy'n ddisgybl yma.A'n gobaith yw paratoi profiadau perthnasol a chofiadwy i'r plant fel y byddant yn mwynhau'r presennol ac, ar yr un pryd y byddant yn datblygu'n bersonau cytbwys ac annibynnol, yn ddinasyddion caredig a chyfrifol.

Rydym yn rhoddi pwyslais ar ddatblygu sgiliau cymdeithasol y plentyn a'u tywys i ffurfio perthynas a phlant eraill ac oedolion ac i fod yn sensitif i deimladau ac anghenion pobl eraill.

Bydd yr athrawon yn sicrhau fod y plant yn symud ymlaen yn ôl eu gallu i gyrraedd eu llawn botensial. Gweithiwn yn galed i sicrhau fod pob plentyn yn teimlo'n dda am ei hun ac yn cyrraedd lefel uchel o hunan barch. Os rydych yn teimlo'n llwyddiannus yna llwyddo wnewch.

Teimlwn fod eich rhan chwi yn y broses yn hanfodol ac fe gymerwn bob cyfle i roddi gwybodaeth i chwi am y ffyrdd yr ydym yn gweithio gyda'ch plentyn. Rydym yn awyddus i gael cyfraniad rhieni ar bob lefel. Os dymunwch gyfrannu o'ch amser fe estynir croeso i chwi yn yr ysgol.

Mae plentyndod yn amser arbennig iawn ac ni cheir ail gyfle. Gallwch ddibynnu arnom i wneud yr amser yn un mor hapus a chynhyrchiol ag sydd yn bosibl i'ch plentyn.

Yn naturiol, fe all y manylion sydd yn y llawlyfr yma newid, ac fe all newid effeithio ar drefniadau yn ystod y flwyddyn.

Yn gywir iawn

*Lynne Jones*

Lynne Jones

## MATH O YSGOL

Mae Ysgol Gymunedol Pentraeth yn Ysgol Gynradd Sirol (Meithrin ,Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2).

Mae'n ysgol ddyddiol, Gymreig, gyd-addysgol. Mae 111 o blant yn mynychu'r ysgol hon.

## SAFLE'R YSGOL

Saif yr ysgol yng nghanol pentref Pentraeth ar Ynys Môn. Clustnodwyd gardd ysgol, lle chwarae caeedig i'r plant Meithrin/ Derbyn ac iard fechan a chae chwarae eang i weddill yr ysgol.

## TEITHIO A PHARCIO

Mae'r ysgol yn annog rhieni i gerdded neu i rannu ceir wrth ddod a'u plant i'r ysgol. Ceir maes parcio penodol ar gyfer staff Cyngor Sir Ynys Môn yn unig, sef staff yr ysgol ac ymwelwyr swyddogol. Dylid gyrru'n ofalus ac yn bwyllog ger safle'r ysgol bob amser. Erfynnir am gydweithrediad pawb, er diogelwch y plant.

## IECHYD A DIOGELWCH

Cymerir pob gofal posib am ddiogelwch y plant tra byddant yn yr ysgol. Os bydd plentyn yn sâl neu mewn damwain cysylltir â'r rhieni, yna os fydd angen eir â'r plentyn i Ysbyty Gwynedd neu cysylltir â'r gwasanaethau brys.

Rhoddir moddion i blentyn mewn achosion arbennig yn unig—a hynny ar ôl derbyn cyfarwyddyd ysgrifenedig gan riant.

Ni chaniateir i blentyn adael yr ysgol yn gynnar heb ganiatâd. Os fydd newid yn y modd y bydd plentyn yn mynd adref, gofynnir i'r rhieni hysbysu'r Pennaeth neu athro'r plentyn o flaen llaw o'r newidiadau hynny.

Mae'r ysgol yn arolygu trefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer y disgyblion a staff yn gyson. Rhaid i bob ymwelydd lofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth y brif fynedfa a gwisgo bathodyn ymwelwyr cyn cael mynediad i weddill yr ysgol. Mae gan yr ysgol system larwm lladron sydd wedi ei gysylltu â'r orsaf heddlu, a cheir 'ymarferion tân' yn dymhorol.

## CYFLEUSTERAU TOILEDAU

Y mae'r cyfleusterau toiledau, sydd ar gael i'r disgyblion, yn bodloni gofynion Iechyd a Diogelwch yr HSE. Bydd y toiledau'n cael eu harchwilio a'u glanhau'n ddyddiol gan ddefnyddio'r cemegolion glanhau a argymhellir gan y Cyngor Sir.

# POLISI MYNEDIAD YSGOL Y GMUNEDOL PENTRAETH

Mae gan bob ysgol rif derbyn. Rhif derbyn yr ysgol hon yw 17. Nid oes trosglwyddiad awtomatig o'r Meithrin i'r Derbyn, a chan mai Awdurdod Addysg Môn yw'r Awdurdod Derbyn, bydd yr Awdurdod yn ystyried ceisiadau. Os digwydd bod mwy wedi dewis anfon eu plant i'r ysgol nag sydd o le ar eu cyfer, ystyrir ceisiadau yn unol â'r meini prawf canlynol a restrir yn nhrefn blaenoriaeth:

• Nifer y plant y gellir eu derbyn i'r ysgol (h.y. rhif derbyn yr ysgol ar gyfer bob blwyddyn ysgol);
• Yr ardal ddaearyddol a wasanaethir fel arfer gan yr ysgol
(h.y. Dalgylch diffiniedig)
• A oes gan y darpar ddisgybl frawd neu chwaer yn yr ysgol.

âwybodaeth ar gael ar wefan Cyngor Ynys Môn, sef www.ynysmon.gov.uk

## DERBYN PLANT

Derbynnir plant i'r Uned Feithrin yn rhan-amser yn y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed.

Yn ystod tymor yr Hâf gwahoddir rhieni disgyblion newydd i'r ysgol i siarad â'r Pennaeth a staff y dosbarth meithrin er mwyn rhannu gwybodaeth am y plant a fydd yn dechrau yn y mis Medi canlynol.

Tua diwedd y tymor gwahoddir y plant i'r ysgol am un bore yr wythnos am gyfnod o 6 wythnos i gyfarwyddo a'u hamgylchedd newydd. Mae Cylch Meithrin Pentraeth wedi ei leoli yn adeilad yr ysgol am 4 bore'r wythnos( Llun - Iau). Rydym yn cyd-weithio'n agos gyda'r Cylch Meithrin yn ystod y broses o drosglwyddo. Bydd staff y Cylch Meithrin yn symud gyda'r plant yn ystod y cyfnodau trosglwyddo. Teimlwn fod hyn yn lleihau eu gofid ac yn eu helpu i edrych ymlaen at ddechrau eu gyrfa llawn

**Amser yn yr ysgol**.

Estynnir gwahoddiad i rieni i gyfarfod â staff y dosbarth meithrin yn ystod tymor yr Hâf cyn bod eu plant yn cychwyn yn yr ysgol er mwyn i'r plant cael cyfle i ymgynefino â'r Uned Feithrin, lleoliad toiledau, maes chwarae a.y.y.b. ac i gyfarfod yr Athrawon a'r Pennaeth.

## PRESENOLDEB YN YR YSGOL

Mae presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn hanfodol os yw plentyn am wneud y cynnydd gorau posib. Rhaid i'r ysgol roi eglurhad am bob achos o absenoldeb a phenderfynu a yw'n "absenoldeb gydag awdurdod" (e.e.salwch) neu'n "absenoldeb heb awdurdod" (e.e. mynd i siopa). Gofynnwn i rieni roi gwybod i ni pan y mae/roedd plentyn yn absennol neu'n hwyr yn cyrraedd yr ysgol, naill ai trwy lythyr/ galwad ffôn/neges testun neu ymweliad personol. Nid yw esboniad gan y plentyn ei hun yn ddigonol. Os na cheir eglurhad bydd yr ysgol yn cysylltu gyda'r cartref i holi'r achos ac os na cheir ymateb yna rhestrir yr absenoldeb fel un "heb awdurdod". Bydd presenoldeb pob plentyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan y Pennaeth. Mewn achosion o absenoldebau cyson, neu batrwm amlwg o gyrraedd yr ysgol yn hwyr, bydd y Pennaeth cysylltu gyda'r rhieni, ac os na cheir eglurhad boddhaol bydd rhaid cyfeirio'r achos i sylw'r Gwasanaeth Lles Addysg.

Dylai rhieni sy'n bwriadu trefnu gwyliau yn ystod tymor ysgol wneud cais am ganiatâd ar ffurflen briodol **ymlaen llaw.** Fel rheol ni all yr ysgol awdurdodi absenoldeb i ddiben gwyliau am fwy na **10 diwrnod** yn ystod y flwyddyn academaidd. Anogir y rhieni i beidio tynnu'r plant o'r ysgol os nad yw'n hollol angenrheidiol. **Bydd yr ysgol yn edrych ar lefel presenoldeb y plentyn cyn cytuno i awdurdodi gwyliau yn ystod tymor ysgol**.

Adroddir i rieni ar lefel presenoldeb eich plentyn / plant ar ddiwedd pob tymor. Ystyrir presenoldeb o 95% yn dda. Mae presenoldeb llai na 92% yn anfoddhaol. Cyhoeddir ystadegau presenoldeb yr ysgol am y flwyddyn flaenorol ar ddechrau Tymor yr Hydref fel rhan o Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni.

## CYSWLLT A'R CARTREF

Mae ar bob ysgol angen cefnogaeth rhieni. Yr ydym felly yn eich annog i ymddiddori yn addysg eich plant ac i fod yn gefn i'r ysgol yn ddyddiol ac yn ei gweithgareddau cyhoeddus. Byddwn yn gofyn i rieni a phlant, ynghyd â'r Pennaeth arwyddo Cytundeb Cartref Ysgol sydd yn nodi cyfrifoldebau a dyletswyddau'r ysgol, y rhieni a'r plentyn i sicrhau yr addysg gorau posibl a phob chwarae teg a chyfle i lwyddo i bob plentyn. Partneriaeth – Rôl yr Ysgol Bydd yr ysgol yn sicrhau fod: *Cyngor ac arweiniad ar ddatblygiad y plant yn cael ei ddarparu i rieni. *Datblygiad pob plentyn yn cael ei fonitro a'i drafod gyda'r rhieni yn ystod cyfarfodydd noson rhieni ac mewn adroddiad ysgrifenedig blynyddol. *Rhieni yn cael gwybodaeth am unrhyw anhawsterau neu broblemau sy'n amlygu eu hunain, neu sy'n amharu ar ddatblygiad addysgol plentyn. *Ethos ac awyrgylch yr ysgol yn hyrwyddo gallu'r plant i gyrraedd eu potensial. *Gwybodaeth rheolaidd am weithgareddau ysgol yn cael eu rhannu gyda'r rhieni. *Côd ymddygiad ac amgylchedd gofalgar wedi ei sefydlu. *Rhaglenni Astudio yn cyd-fynd â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn addas i oedran, tueddiadau a gallu pob plentyn. Partneriaeth – Rôl y Rhieni: Gobeithiwn y bydd rhieni yn ein cefnogi drwy: *Ddeall anghenion eich plentyn tra yn yr ysgol *Fod yn barod i gyfathrebu gyda'r ysgol a mynychu nosweithiau rhieni'n rheolaidd. *Gymryd diddordeb yn y gwaith y mae eich plentyn yn ei wneud a chefnogi ei astudiaethau. *Rannu pryderon am addysg, iechyd neu ymddygiad eu plentyn. *Gefnogi côd ymddygiad yr ysgol. Efallai y bydd adegau pan fyddwch angen cysylltu â ni i drafod plentyn - 'rydym bob amser yn falch o dderbyn galwad ffôn neu lythyr i drefnu apwyntiad cyn gynted ag y bo modd.

## CLWB BRECWAST a CHLWB GWARCHOD

Bellach mae'r ysgol yn darparu Clwb Gwarchod ar gyfer plant o 8yb hyd 8.25yb am gost o £1 y plentyn y dydd. Mae'r ysgol hefyd yn cynnig Clwb Brecwast am ddim i blant yr ysgol rhwng 8.25yb a 8.50yb. Cynigir brecwast iach i'r plant yn unol â rheoliadau statudol Llywodraeth Cymru 'Bwyta'n Iach Mewn Ysgolion'. Os ydych am i'ch plentyn fanteisio ar y clybiau hyn gofynnir i chwi gwblhau'r ffurflenni cofrestru sydd ar gael o'r ysgol.

## GWASANAETH PRYDAU CINIO

Gwasanaeth Arlwyaeth Caterlink sy'n gyfrifol am y cinio ganol dydd. Mae copi o'r fwydlen ar gael i rieni. Gofynnir am wythnos o rybudd os am newid o ginio i frechdanau neu i'r gwrthwyneb.
Derbynnir arian cinio  drwy School Gateway  taliadau ar lein drwy ddefnyddio app 'Gateway'. Cysylltwch gyda'r swyddfa am ragor o wybodaeth.
Mae gan rhai teuluoedd yr hawl i wneud cais am ginio am ddim i'w plant. Mae'r ffurflenni priodol ar gael gan yr ysgol neu gan y Swyddfa Addysg.

## BOCSYS BWYD IACH

Mae rhai rhieni'n penderfynu rhoi bocs bwyd i'w plant yn hytrach na chinio ysgol. Rydym fel ysgol yn eich annog i ystyried cynnwys y bocs bwyd y byddwch yn ei ddarparu i'ch plentyn. Rydym yn credu mewn addysgu'r plant o oed ifanc am bwysigrwydd bwyta'n iach. Gofynnwn am eich cydweithrediad drwy sicrhau fod cynnwys y pecyn bwyd yn cydymffurfio ag argymhellion canllawiau 'Blas am Oes'.

## BYRBRYDAU, DŴR A LLEFRITH

Yn unol â dogfen statudol Llywodraeth Cymru 'Blas am Oes' caniateir i blant ddod â ffrwythau a dŵr i'r ysgol yn unig. Mae Ffynnon ddŵr wedi ei lleoli yn yr ysgol at ddefnydd y plant a hynny'n rhad ac am ddim. Anogir y plant i yfed digon o ddŵr drwy gydol y dyd gan ddod a potel ddŵr eu hunain..
Mae caffi ar gael yn y dosbarth Meithrin a Derbyn yn ddyddiol.  Gallwch dalu am y ffrwyth yn wythnosol neu'n ddyddiol. Cynigir llefrith am ddim i blant 3 i 7 oed.

## GWISG

Mae  gwisg ysgol swyddogol gan yr ysgol ond nid yw'n orfodol ei wisgo ond teimlir bod gwisg ysgol yn arwain at feithrin balchder yn yr ysgol ac ymdeimlad o berthyn iddi ac felly mawr obeithiwn y byddwch chi, y rhieni'n, barod i gefnogi gwisg swyddogol yr ysgol.
Crys polo gwyn.
Siwmper / crys chwys biws
Trowsus du / sgert ddu ( dim 'leggings')
Tei
**Gellir prynu'r siwmper a tei  yr ysgol o Siop Brodwaith, Llangefni neu Orchid Fashion, Bangor**

**Gemwaith**
Am resymau diogelwch ni chaniateir gemwaith yn yr ysgol ac eithrio wats blaen a stydiau clust. Ni chaniateir mathau eraill o glustdlysau.

**Esgidiau**
Dylai plant wisgo esgidiau neu 'drainer' du plaen  Gall esgidiau gyda sodlau uchel fod yn beryglus ac felly ni ddylid eu gwisgo i'r ysgol.
**Sannau** – du penglin yn y gaeaf a gwyn byr yn yr Hâf
**Teganau**
Ni chaniateir i'r plant ddod â theganau i'r ysgol.
**Gwalltiau**
Disgwylir i'r disgyblion wisgo eu gwalltiau yn daclus a gochel rhag defnyddio 'batrymau' neu siapiau gwallt yn amhriodol i'r ysgol.
**Enwau ar ddillad**
Gallwch fentro fod dillad yn mynd ar goll o bryd i'w gilydd. Erfyniwn arnoch i sicrhau fod label enw ar bob dilledyn, gan gynnwys cotiau a dillad Addysg Gorfforol.
**Dillad Addysg Gorfforol**
Disgwylir i'r plant newid i ddillad addas ar gyfer Addysg Gorfforol ac yn ôl i'w dillad arferol ar ddiwedd y wers. Bydd eich plentyn angen crys – t gwyn a throwsus byr neu leggings du plaen. Bydd y plant hefyd angen esgidiau Addysg Gorfforol( trainers neu bymps du.

## DYSGU AC ADDYSGU

## ATHRAWON A STAFF

Prif adnoddau pob ysgol yw ei hathrawon a chymorthyddion a'u gallu i greu a chynnal perthynas hapus â'r plant. Yr ydym yn ffodus i feddu ar staff sy'n rhoi pwyslais ar ansawdd y berthynas rhwng athro/athrawes a disgybl er mwyn hyrwyddo datblygiad academaidd a phersonol y plentyn. Credwn mai'r athro/athrawes sy'n llwyddo yw'r athro/athrawes a ddaw i adnabod ei (d)disgyblion fel unigolion, sy'n ymwybodol o'u bywydau y tu allan i'r ysgol ac sy'n barod bob amser i barchu a rhoi bri ar eu profiadau a'u hymdrechion i ddygymod â nhw. Mae staff yr ysgol hon yn hyrwyddo bywydau'r disgyblion fel unigolion.

## TREFNIADAETH DYSGU AC ADDYSGU

O fewn yr ystafell ddosbarth trefnir y gwaith gan yr athrawes. Mae 4 o ddosbarthiadau llawn amser yn yr ysgol. Mae'r dosbarthiadau hyn wedi eu trefnu'n ôl eu hoedran.
Trosglwyddir plant o'r Dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen i'r Adran Cyfnod Allweddol 2 pan fyddant yn 7 oed.

.

## CWRICWLWM YR YSGOL

Cyflwynir cwricwlwm cytbwys ac eang sy'n ymwneud â datblygiad ysbrydol, moesol, meddyliol, cymdeithasol, corfforol ac emosiynol y plentyn. Gwneir hyn yn bennaf drwy'r dull thematig

## DEFNYDDIO'R GYMRAEG

Y Gymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr Uned Feithrin a derbyn a'r Cyfnod Sylfaen, er mwyn i'r plant gael sylfaen gadarn yn yr iaith. Mae nifer o blant sy'n cychwyn gyda ni yn y meithrin yn dysgu siarad Cymraeg yn yr ysgol gan staff sy'n sensitif i anghenion y plant. Caiff ei addysgu drwy ganu hwiangerddi, ailadrodd patrymau a drwy chwarae. Erbyn diwedd y dosbarth Meithrin mae mwyafrif o'r plant yn deall ac yn dechrau mynegi eu hunain yn y Gymraeg gan ddefnyddio ymadroddion syml.
Caiff y Saesneg ei gyflwyno'n ffurfiol yn ystod Tymor yr Haf ym Mlwyddyn 2 er mwyn sicrhau fod y disgyblion yn ddwyieithog erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol hon yn 11 mlwydd oed.

Yn ystod eu taith o Flwyddyn 3 i flwyddyn 6 fe addysgir y plant drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Caiff cymhareb cyfrwng Cymraeg/Saesneg y gwersi ei benderfynu i ateb gofynion ieithyddol dosbarthiadau penodol, er mwyn sicrhau fod pob plentyn yr un mor hyderus a galluog yn y ddwy iaith erbyn iddynt gyrraedd diwedd eu cyfnod yn yr ysgol hon.
Caiff plant sy'n cychwyn ym mlwyddyn 3 neu uwch ac sy'n newydd i'r Gymraeg eu gwahodd i fynychu Uned Iaith am dymor lle caent eu trochi yn y Gymraeg. Mae hyn yn eu galluogi i integreiddio i mewn i fywyd yr ysgol ynghyd â'r gymuned leol.
Caiff plant yn Ysgol Gymunedol Pentraeth eu hasesu yn eu gallu o ran Cymraeg fel Iaith Gyntaf sydd yn unol â pholisi iaith yr Awdurdod Lleol. Caiff y plant eu hasesu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a hefyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Mewn rhai amgylchiadau eithriadol caiff ambell i blentyn ei asesu drwy gyfrwng y Saesneg. Mae hyn yn ddibynnol ar faint o amser mae'r plentyn wedi ei dreulio'n dysgu'r Gymraeg.
Cyn i ddisgyblion Blwyddyn 6 drosglwyddo i'r Ysgol Gyfun cynhelir cyfarfod rhwng Pennaeth Blwyddyn 7 ac athrawon yr ysgol hon er mwyn trafod gallu ieithyddol y disgyblion a phenderfynu pa ddosbarth fyddai orau ar gyfer pob plentyn. Rydym fel ysgol yn ymfalchïo o gael cyfle i gyfranogi o gyfoeth diwylliant drwy gyfrwng dwy iaith.
Mae'r ysgol hon wedi mabwysiadu ac yn gweithredu canllawiau'r Siarter Iaith Ynys Môn( Gwobr arian). Mae gofyn i bob ysgol ar yr ynys ei fabwysiadu er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc yr ynys.

## CYFNOD SYLFAEN ( 5-7 OED)

Dilynir saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen gyda'r disgyblion rhwng 3 i 7 oed.
- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Datblygu'r Gymraeg
- Datblygiad Mathemategol
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- Datblygiad Corfforol
- Datblygiad Creadigol

## CA2 ( 7-11 0ED)

Dilynir Cwricwlwm 2008
Pynciau Craidd – Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth
Pynciau Sylfaen – Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol, Cerdd, Celf, Technoleg Gwybodaeth, Dylunio a Thechnoleg ac Addysg Gorfforol

## IAITH

Mae datblygiad ieithyddol plentyn yn sylfaen i ddysgu. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol hyn drwy amrywiol brofiadau sydd wedi ei chynllunio i symbylu ymateb synhwyrol, bywiog a deallus yn y ddwy iaith.

## GWRANDO

Rhoddir sylw i ddatblygu gallu plentyn i wrando'n effeithiol mewn sefyllfaoedd torfol, sefyllfaoedd grŵp ac fel unigolyn er mwyn iddo gael pleser, ymateb i gyfarwyddyd ac ymateb yn greadigol a deallus.

## SIARAD

Rhoddir pwyslais ar greu sefyllfaoedd lle fo plant yn cael cyfle i ddatblygu'r gallu i siarad yn glir, yn ddealladwy ac yn hyderus mewn iaith briodol i'r sefyllfa dan sylw, gan ymarfer gofal am gywirdeb.

## DARLLEN

Mae'r ysgol hon yn rhoi pwyslais ar feithrin y plentyn fel darllenwr o'r cychwyn cyntaf fel y gall:

- gael pleser neu ddiddanwch;
- ddyfnhau ei ddealltwriaeth;
- gasglu gwybodaeth;
- ddatblygu'i allu i fod yn feirniadol yn ei ddarllen ac i werthfawrogi llyfrau da.

## YSGRIFENNU

Rhoddir cyfle i'r plentyn ymateb yn ysgrifenedig i wahanol brofiadau a sefyllfaoedd ac i ysgrifennu i wahanol ddibenion fel y gall:

- ddefnyddio ysgrifennu fel cyfrwng i fynegi ei hun a gwneud synnwyr o'r byd o'i gwmpas;
- ddefnyddio ysgrifennu i ddyfnhau'i ddealltwriaeth;
- ddewis a defnyddio ffurf ar ysgrifennu sy'n briodol ar gyfer y pwrpas sydd iddo.

## MATHEMATEG / RHIFEDD

Mae fframwaith mathemateg yr ysgol yn seiliedig ar raglenni astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol, sy'n manylu ar bedwar agwedd i'r pwnc:

- Defnyddio a chymhwyso mathemateg;
- Rhif;
- Siâp, Gofod a Mesurau;
- Trin data.

Datblygir medrau a dealltwriaeth drwy gyfrwng gwaith ymarferol, pwrpasol sy'n adeiladu ar brofiadau blaenorol. Sicrheir cyfleoedd cyson i ymarfer a chadarnhau'r prosesau a'r sgiliau sylfaenol sy'n holl bwysig os yw'r plentyn yn mynd i feddwl yn glir gyda hyder ac ystwythder. Ceisir sicrhau hefyd ei fod yn gweld pwrpas i'r sgiliau a'r prosesau a gyflwynir drwy eu cymhwyso i sefyllfa "go-iawn" yn yr ysgol, y cartref a'r gymdeithas gyffredinol.
Drwy ddarpariaeth fwriadus ac ymateb sensitif i waith y plentyn gobeithiwn feithrin agwedd bositif at fathemateg fel pwnc diddorol i'w fwynhau. Ar hyd y daith anogir y plant i gymryd balchder yn eu gwaith drwy bwysleisio pwysigrwydd cyflwyniad taclus a threfnus.

## TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU

Credwn ei fod yn allweddol bwysig ein bod yn arfogi'n plant gyda'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer byd gwaith y dyfodol. Dysgwn sgiliau cyfrifiadureg / technoleg ddigidol trwy weithgareddau ymarferol ar draws ystod o weithgareddau amrywiol ac mae'n cyfrannu i waith ar draws y cwricwlwm. Ymdrechwn i godi ymwybyddiaeth plant o botensial y cyfrifiadur a Thechnoleg Gwybodaeth yn y byd o'u cwmpas ac i ymdrin ag o yn hyderus a diogel.

## GWYDDONIAETH

Mae Gwyddoniaeth yn cyffwrdd â bywyd pob un ohonom. Anelwn at hybu ymwybyddiaeth y plentyn o'i bresenoldeb mewn bywyd pob dydd trwy astudio amrywiaeth o gyd-destunau domestig, diwydiannol ag amgylcheddol.

Mae rhaglenni astudio y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 yn amlinellu pedwar maes astudio:

- Ymholiad Gwyddonol
- Prosesau bywyd a phethau byw.
- Defnyddiau a'u priodweddau.
- Prosesau ffisegol.

Ymdrinnir â'r gwaith mewn ffordd ymarferol sy'n gwahodd y plant i holi, i arbrofi, i arsylwi'n ofalus ac yna i ddehongli eu canlyniadau. Mewn amser gobeithiwn iddynt weld yr angen i arbrofi'n deg a chywir, mewn geiriau eraill i weithio fel "gwyddonwyr bach".

Mae gwyddoniaeth hefyd yn gyfrwng gwerthfawr i hybu datblygiad Technoleg Gwybodaeth, Iaith a Mathemateg y plentyn oherwydd rhoddir pwyslais ar yr angen i drafod a chofnodi gwybodaeth a phrofiadau yn glir a threfnus.

## DAEARYDDIAETH

Mae gan blant ddiddordeb naturiol yn y byd o'u cwmpas. Trwy astudiaethau daearyddol datblygir eu dealltwriaeth o'r patrymau ffisegol a dynol ar wyneb y ddaear, ac o'r rhyngberthynas rhwng pobl a'i gilydd, gwledydd a'i gilydd a phobl a'r amgylchedd. Wrth ymestyn ymwybyddiaeth, amcanwn hefyd i hyrwyddo'r teimlad o gyfrifoldeb arnom oll am y ddaear a'i phobl.

## HANES

Ystyriwn astudio hanes, sef rhoi'r presennol yng nghyd-destun y gorffennol, yn rhan annatod o addysg gyflawn. Trwy astudio amrywiaeth o dystiolaeth hanesyddol (h.y. llafar ac ysgrifenedig lluniau a ffotograffau, arteffactau a chreiriau) datblygir gwybodaeth a dealltwriaeth y plentyn o'r gorffennol a meithrinir ymwybyddiaeth o fywyd mewn cyfnodau a diwylliannau gwahanol.

Wrth gerdded ein llwybr drwy hanes byddwn yn ymdrechu i wneud y plentyn yn ymwybodol o safleoedd a digwyddiadau arwyddocaol i'r ardal, yr Ynys a Chymru.

## ADDYSG GREFYDDOL AC ADDOLIAD AR Y CYD

Mae gan Addysg Grefyddol gyfraniad arbennig i'w wneud i ddatblygiad y plentyn oherwydd mae'n ymwneud â gwerthoedd personol a moesol a ffordd o fyw sy'n ystyrlon a phwrpasol.

Nid yw'r ysgol hon yn dal cysylltiad uniongyrchol a ffurfiol ag unrhyw enwad crefyddol. Er bod y cwricwlwm yn seiliedig ar y traddodiad Cristnogol telir sylw i grefyddau eraill hefyd.

Cynhelir addoliad yn ddyddiol a gwahoddir rheithor lleol a chynrychiolwyr o fudiadau elusennol i ymuno â ni yn achlysurol. Paratoir gwasanaethau arbennig i ddathlu diwrnodau gŵyl e.e Diolchgarwch, Dydd Gŵyl Dewi ac ati.

Mae gan rieni hawl statudol i eithrio eu plentyn o'r gwersi Addysg Grefyddol a'r cydaddoliad. Gofynnwn i chwi ysgrifennu llythyr i'r Pennaeth er mwyn ei hysbysu o'ch dymuniad.

## CELF

Cyflwynir ystod eang o brofiadau fel rhan o'r cwricwlwm Celf gyda'r nod o feithrin creadigrwydd a datblygu hyfedredd wrth arbrofi a thrin offer, defnyddiau a thechnegau. Rhoddir cyfle i'r plant

ddysgu am gelfyddyd amlddiwylliannol yn ogystal â chelfyddyd Gymreig ac ymgyfarwyddo â chelf ar draws gwahanol gyfnodau.

## DYLUNIO A THECHNOLEG

Rydym yn byw mewn oes sy'n troi fwyfwy i fyd technoleg ac o'r herwydd mae'n ddyletswydd arnom i roi lle i'r maes hwn ar gwricwlwm yr ysgol. Trefnir cyfleoedd i'r plant ymdrin â thechnoleg mewn sefyllfaoedd cyfarwydd â phwrpasol. Datblygir eu gallu i adnabod angen ac i ymrafael â phroblem er mwyn ei datrys. Fe'u harweinir trwy broses o drafod ag ymchwilio, o ddylunio a gwneud, ac yn olaf o ddefnyddio a gwerthuso. Trwy hyn datblygir ynddynt y gallu i feddwl yn rhesymegol, i wneud penderfyniadau ac yna i weithredu arnynt.

## CERDD

Mae cerdd yn rhan annatod o'r cwricwlwm gyda phob plentyn yn cael cyfle i wrando ar gerddoriaeth, i ganu ac i greu cerddoriaeth drwy ddefnyddio amrywiol offerynnau. Uwchlaw pob dim gobeithiwn i bawb fwynhau eu profiadau cerddorol.
Gellir ymestyn y ddarpariaeth gerddorol i'r plant sy'n dangos dawn arbennig trwy ymuno â Chynllun Ysgolion William Mathias, sy'n darparu athrawon teithiol i ddysgu offerynnau. Codir ffi am y gwersi ( £50 eleni). Ar hyn o bryd gall yr ysgol drefnu gwersi, ffidil, soddgrwth, ffliwt, clarinét,gitâr,piano a'r delyn. Codir ffi am y gwersi hyn a disgwylir i'r rhieni dalu'r swm yma. Mae'n swm rhesymol iawn o gofio ei fod yn cynnwys tiwtor a benthyg offerynRydym wedi sefydlu cerddorfa yn yr ysgol, a rhoddir cyfle i nifer o'n plant ddod yn aelodau o gerddorfeydd neu fandiau rhanbarth Môn.
Mae ysgol perfformio yn rheoliadd ac yn cymryd rhan mewn amrywiaetho gystadleuthau yn eisteddfod yr Urdd.

## ADDYSG GORFFOROL/ CHWARAEON

Mae datblygiad corfforol yn rhan bwysig o ddatblygiad plentyn. Ceisiwn sicrhau fod ein rhaglen addysg gorfforol yn cynnig profiadau amrywiol a phleserus sy'n rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu sgiliau ac ystwythder. Gyda neuadd, buarth a chae ynghyd â chasgliad o offer, gall yr ysgol drefnu rhaglen sy'n cynnig gymnasteg, dawns, chwaraeon ac athletau. Trefnir hefyd gwersi nofio i blant o'r dosbarth derbyn i blwyddyn 6. Mae pob plentyn yn dysgu sut i nofio erbyn diwedd CA2.
Disgwylir i'r plant wisgo dillad addas ar gyfer addysg gorfforol. Yn y gwersi gymnasteg a dawns anogir y plant i weithio'n droednoeth gan fod hyn yn rhoi gwell sensitifrwydd i'w symudiadau. Cyflwynir y gweithgareddau i grwpiau cymysg. Ceisiwn feithrin agweddau iach tuag at gystadlu gyda'r ysgol yn cynnig cyfleodd i'r plant ymuno â thimau gymnasteg, dawns,pêl droed a rygbi. Yn ogystal â hyn fe fydd Blwyddyn 5 a 6 yn mynychu Canolfan Awyr Agored Conway, Llanfairpwll am un sesiwn yr wythnos dros gyfnod o chwe wythnos yn nhymor yr Hâf lle trefnir gweithgareddau amrywiol sy'n cynnwys ceuafdu a dringo.
Bydd plant hŷn yr ysgol hefyd yn cael cyfle i ymuno mewn gemau yng nghlwb yr Urdd. Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn amryw i dwrnamentau a chystadleuthau chwaraeon yn ystod y flwyddyn trefnir gemau cyfeillgar yn erbyn ysgolion yr Ynys gan y  Cyngor Chwaraeon.

## ADDYSG BERSONOL A CHYMDEITHASOL

Ni all ysgol osgoi ei chyfrifoldeb dros ddatblygiad personol a chymdeithasol ei disgyblion. Mae'r elfennau hyn yn amlygu eu hunain ym mywyd a gwaith yr ysgol, a thrwy'r berthynas a sefydlir rhwng y staff a'r plant.

Anelwn at feithrin y synnwyr o hunan barch a pharch tuag at eraill. Mae'n bwysig i'r plentyn ddod i ddeall sut y mae ei gorff yn gweithio a'r modd y gall ddiogelu ei iechyd a'i les.

Fe'i harweinir hefyd i werthfawrogi'r syniad o gymuned a'r rhan sydd ganddo i chwarae ynddi.

Pwysleisiwn er enghraifft ein cyfrifoldeb tuag at ein hamgylchfyd.

Mae’r ysgol yn anelu hefyd i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o sgiliau menter a busnes e.e. bu disgyblion yn creu gwrthrychau Nadolig er mwyn gwneud elw.

Y mae’r ysgol yn rhan o brosiectau Ysgolion Eco ac Ysgolion Iach Môn a Gwynedd a thrwyddynt anelwn i hybu holl agweddau Addysg Bersonol a Chymdeithasol.

| AMSERLEN CYFNOD SYLFAEN | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **LLUN** | **MAWRTH** | **MERCHER** | **IAU** | **GWENER** | |
| 9:00 – 9:30 | C O F R E S T R U A G W A S A N A E TH | | | | | |
| 9:30 – 10:35 | Sesiwn dysgu 1<br>1 awr 5 mun | Sesiwn dysgu 1<br>1 awr 05 mun | Sesiwn dysgu 1<br>1 awr 05 mun | Sesiwn dysgu 1<br>1 awr 05 mun | Gwasanaeth hyd at 9:45 ond dim amser chwarae bore | |
| 10:35 – 10:50 | **E G W Y L** | | | | | |
| 10:50 – 12.00 | Sesiwn dysgu 2<br>1 awr | Sesiwn dysgu 2<br>1 awr | Sesiwn dysgu 2<br>1 awr | Sesiwn dysgu 2<br>1 awr | | |
| 12.00 – 1.05 | **C I N I O** | | | | | |
| 1.05 – 2.20 | Sesiwn dysgu 3<br>1 awr 30 munud | Sesiwn dysgu 3<br>1 awr 30 munud | Sesiwn dysgu 3<br>1 awr 30 munud | Sesiwn dysgu 3<br>1 awr 30 munud | Sesiwn dysgu 3<br>1 awr300 munud | |
| 2:20-2.40 | **E G W Y L** | | | | | |
| 2:40 – 3:20 | Sesiwn dysgu 4<br>40 munud | Sesiwn dysgu 4<br>40 munud | Sesiwn dysgu 4<br>40 munud | Sesiwn dysgu 4<br>40 munud | Sesiwn dysgu 4<br>40 munud | |
| **CYFANSWM ORIAU ADDYSGU** | **4 AWR<br>15 MUNUD** | **4 AWR<br>5 MUNUD** | **4 AWR<br>5 MUNUD** | **4 AWR<br>5 MUNUD** | **4 AWR<br>5 MUNUD** | **Bodloni gofynion** |

| **AMSERLEN CA2** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **LLUN** | **MAWRTH** | **MERCHER** | **IAU** | **GWENER** | |
| 9:00 – 9:30 | C O F R E S T R U A G W A S A N A E TH | | | | | |
| 9:30 – 10:35 | Sesiwn dysgu 1<br>1 awr 10 mun | Sesiwn dysgu 1<br>1 awr 10 mun | Sesiwn dysgu 1<br>1 awr 10 mun | Sesiwn dysgu 1<br>1 awr 10mun | Gwasanaeth hyd at 9:45 ond dim amser chwarae bore | |
| 10:35 – 10:50 | **E G W Y L** | | | | | |
| 10:50 – 12:00 | Sesiwn dysgu 2<br>1 awr 10 mun | Sesiwn dysgu 2<br>1 awr 10mun | Sesiwn dysgu 2<br>1 awr 10 mun | Sesiwn dysgu 2<br>1 awr 10 mun | Sesiwn dysgu 2<br>1 awr 10 mun | |
| 12:00 – 12.45 | **C I N I O** | | | | | |
| 12.45 – 2.10 | Sesiwn dysgu 3<br>1 awr 30 munud | Sesiwn dysgu 3<br>1 awr 30 munud | Sesiwn dysgu 3<br>1 awr 30 munud | Sesiwn dysgu 3<br>1 awr310 munud | Sesiwn dysgu 3<br>1 awr 30 munud | |
| 2.10– 2:20 | **E G W Y L** | | | | | |
| 2:20 – 3:20 | Sesiwn dysgu 4<br>1 awr | Sesiwn dysgu 4<br>1 awr | Sesiwn dysgu 4<br>1 awr | Sesiwn dysgu 4<br>1 awr | Sesiwn dysgu 4<br>1 awr | |
| **CYFANSWM ORIAU ADDYSGU** | **4 AWR<br>50 MUNUD** | **4 AWR<br>50 MUNUD** | **4 AWR<br>50 MUNUD** | **4 AWR<br>50 MUNUD** | **4 AWR<br>50 MUNUD** | **Bodloni gofynion** |

## YSGOL ECO

Y mae gan yr ysgol Gyngor Ysgol Eco sy'n cynnwys plant o Flwyddyn 3 i 6 sydd wedi ei hethol gan holl ddisgyblion yr ysgol. Mae eu gwaith caled wedi arwain at lwyddiant gyda'r ysgol bellach yn disgwyl achrediad gwobr aur. Nod yr ysgol yw addysgu plant a chodi ymwybyddiaeth ynddynt o'r angen i ofalu am eu cyfrifoldeb o safbwynt gofalu am yr amgylchedd.

## YSGOL IACH

Ym Mehefin 2016 gwobrwywyd yr ysgol am gwblhau'r pumed cam yn y Cynllun Ysgolion Iach Gwynedd a Môn ac rydym bellach yn gweithio tuag at y Cam Aur. Mae addysgu'r disgyblion am arferion byw yn iach yn flaenoriaeth uchel gan yr ysgol hon. Mae'r Cyngor Ysgol yn cyfrannu'n helaeth at y cynllun Ysgol Iach.

## CYNGOR YSGOL

Sefydlwyd y Cyngor Ysgol gyda'r prif nod o roddi cyfle i ddisgyblion chwarae rhan mewn gwneud penderfyniadau o fewn yr ysgol. Caiff aelodau'r cyngor eu hethol gan ddisgyblion yr ysgol. Ceir cynrychiolydd o bob blwyddyn CA2 ar y Cyngor Ysgol. Maent yn cyfarfod i drafod materion sy'n bwysig i blant ysgol gan adrodd yn ôl i'r Pennaeth.

## ADDYSG RHYW

Yn unol â gofynion Deddf Addysg 1993, disgwylir i Gorff Llywodraethu pob ysgol ystyried a ddylai Addysg Rhyw fod yn rhan o'r cwricwlwm seciwlar. Penderfynodd llywodraethwyr yr ysgol hon y dylai fod yn rhan o gwricwlwm yr ysgol. Teimla'r Corff fod addysg rhyw briodol a chyfrifol yn elfen bwysig yn waith yr ysgol wrth baratoi plant ar gyfer bywyd oedolion.Fe'i cyflwynir i blant Blwyddyn 6 yn ystod eu tymor olaf. Rhoddir cymorth i'r plant i ddod i wybod am y newidiadau corfforol sy'n effeithio arnynt, a gosodir sylfaen ar gyfer adeiladu agweddau iach a phositif tuag at faterion rhywiol yn y dyfodol. Gwerthfawrogir yr angen am driniaeth ofalus a sensitif. Mae gwahoddiad i unrhyw riant drafod y ddarpariaeth a'r deunyddiau dysgu o flaen llaw pe dymunent. Mae gan rieni'r hawl i dynnu eu plant yn ôl o'r cyfan neu ran o'r addysg rhyw a ddarperir.

## GBDR- DIOGELU DATA

**Hysbysiad Preifatrwydd Ysgol Gymunedol Pentraeth**

**(Sut ydym yn defnyddio gwybodaeth am ddisgyblion)**

Mae'r categoriau gwybodaeth am ddisgyblion yr ydym yn eu casglu, eu dal a'u rhannu yn cynnwys:

- Gwybodaeth bersonol (megis enw, rhif unigryw disgybl a chyfeiriad)
- Nodweddion (megis ethnigrwydd, iaith, cenedligrwydd, gwlad enedigol a chymhwysedd pryd ysgol am ddim)
- Gwybodaeth am bresenoldeb (megis nifer y sesiynau a fynychwyd, nifer yr absenoldebau a rhesymau dros absenoldeb)
- Gwybodaeth am asesiadau
- Gwybodaeth feddygol berthnasol
- Gwybodaeth am Anghenion Addysgol Arbennig
- Gwybodaeth am waharddiadau/ymddygiad
- Gwybodaeth bersonol am rieni'r disgybl a/neu berthnasau eraill (megis enw, manylion cyswllt, perthynas a'r plentyn)

Pam yr ydym yn casglu a defnyddio'r wybodaeth hon Rydym yn defnyddio data disgybl:

- i gefnogi addysg y disgybl
- i fonitro ac adrodd ar gynnydd y disgybl
- i ddarparu gofal bugeiliol priodol
- i asesu ansawdd ein gwasanaethau
- i gydymffurfio a'r gyfraith ynglŷn â rhannu data
- i rannu data ar gyfer archwiliadau statudol a dibenion archwilio

Y sail gyfreithlon pam yr ydym yn defnyddio'r wybodaeth hon

Rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth am ddisgyblion, staff a llywodraethwyr dan

- Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Ysgolion) (Cymru) 2011
- Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Disgybl) (Cymru) 2011
- Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011
- Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb) (Cymru) 2011
- Rheoliadau Addysg (Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion) (Cymru) 2011
- Deddf Cyflogau a Thelerau Gwaith Athrawon 1991
- Cytundebau cyfunol Cenedlaethol Rhwng Cyngor Awdurdod Addysg Lleol ac Undebau Athrawon Cydnabyddedig
- Cytundebau Cyfunol Lleol Rhwng Awdurdod Addysg Ynys Môn ac Undebau a Gydnabyddir gan yr Awdurdod ar gyfer trafodaethau ar ran Athrawon.
- Deddf Diogelu Data 1998
- Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol A'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014
- Ddeddf lechyd a Diogelwch Wrth Waith ayb 1974 (Health and Safety at Work, etc. Act, 1974)
- Deddf Cydraddoldeb / Equality Act 2010
- Gorchymyn Rheoleiddio (Diogelwch Tan)2005/ Regulatory Reform (Fire Safety) Order 2005 (ffurflenni PEEPS yn cael eu cwblhau ac mae rhain yn cynnwys manylion unrhyw anableddau sydd gan blentyn/staff)
- Erthygl 6(c) ac (e) ac Erthygl 9 (g) (GDPR)
- Gallwn hefyd ddefnyddio caniatad ar adegau (e.e. ffotograffau)

**Casglu gwybodaeth am ddisgyblion**

Er bod y mwyafrif o wybodaeth am ddisgybl yr ydych yn ei darparu i ni yn orfodol, darperir ychydig ohoni i ni ar sail wirfoddol.

Er mwyn cydymffurfio 3 deddfwriaeth diogelu data, byddwn yn eich hysbysu p'un a fydd yn ofynnol i chi ddarparu gwybodaeth benodol i ni am ddisgybl neu os oes gennych ddewis yn hyn.

Os darperir gwybodaeth i ni ar sail wirfoddol, byddwn yn gofyn i chi roi caniatâd penodol ac yn rhoi'r opsiwn i chi dynnu'r caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg.

**Cadw data am ddisgyblion**

Rydym yn cadw data am ddisgyblion am gyfnodau amrywiol o amser yn dibynnu beth yw'r wybodaeth. Mae cyfnodau cadw wedi'i gynnwys ym mholisi diogelu data yr ysgol.

**Gyda phwy yr ydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion**

Rydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion yn rheolaidd gyda:

- ysgolion a fynychwyd gan y disgyblion ar ôl ein gadael
- ein hawdurdod addysg lleol - Cyngor Sir Ynys Môn- Gwasanaethau - Cymdeithasol, Hamdden, Cludiant, Cyllid, Ieuenctid.

Asiantaethau a gomisiynir gennym i ddarparu gwasanaethau ar ein rhan :

- Llywodraeth Cynulliad Cymru (drwy HWB)
- Byrddau Arholi
- Colegau Addysg Bellach
- Prifysgol Bangor, a sefydliadau eraill addysg Uwch yng Nghymru a Prydain fawr a phrifysgolion sydd yn rhan o raglen SEREN Llywodraeth Cymru
- Cwmni Cynnal
- Heddlu a Thîm Troseddu'r Ifanc
- Gwasanaethau iechyd
- Antur Waunfawr (gwaredu deunyddiau cyfrinachol)

Cwmniau Perthnasol sy'n hybu gweinyddiaeth a phrofiadau addysg disgylbion

- Urdd Gobaith Cymru
- CAPITA-SIMS
- PIXEL
- School Gateway
- FFTrust

- INCERTS
- Text to parents
- Caterlink - school meals
- EVOLVE
- Purple Mash
- E-awrae

**Pam yr ydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion**

Nid ydym yn rhannu gwybodaeth am ein disgyblion gydag unrhyw un heb ganiatad, oni bai bod y gyfraith a'n polis eu yn caniatau i ni wneud hynny.

Rydym yn rhannu data am ddisgyblion gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) arsail statudol. Mae rhannu data yn y modd hwn yn tanategu cyllid yr ysgol a pholisi a monitro cyrhaeddiad addysgol.

**Ysgolion a gynhelir:**

Mae'n ofynnol i ni rannu gwybodaeth am ein disgyblion gyda'n hawdurdod lleol (ALI) Cyngor Sir Ynys Môn a Llywodraeth y Cynulliad dan: Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Disgybl) (Cymru) 2011

**Gofynion casglu data:**

Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Disgybl) (Cymru) 2011

Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb) (Cymru) 2011

**Gofyn am fynediad at eich data personol**

Dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gan rieni a disgyblion yr hawl i ofyn am fynediad at y wybodaeth yr ydym yn ei chadw amdanynt. Er mwyn gwneud cais am eich gwybodaeth bersonol, neu ofyn am fynediad at gofnod addysgol eich plentyn, cysylltwch â'r Pennaeth.

Mae gennych hefyd yr hawl i:

- wrthwynebu i ddata personol gael ei brosesu sy'n debygol o achosi, neu sy'n achosi, niwed neu ofid
- atal unrhyw beth rhag cael ei brosesu er dibenion marchnata uniongyrchol
- gwrthwynebu i benderfyniadau gael eu gwneud gan ddulliau awtomataidd
- cywiro, rhwystro, dileu neu ddinistrio data personol anghywir, mewn amgylchiadau penodol; a
- hawlio iawndal am y niwed a achoswyd o ganlyniad i dorri rheoliadau Diogelu Data

Os oes gennych bryder ynglyn a'r modd yr ydym yn casglu neu'n defnyddio eich data personol, gofynnwn i chi nodi eich pryder gyda ni i ddechrau. Fel arall, gallwch gysylltu a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy https://ico.org.uk/concerns/

Cysylltu

Os hoffech drafod unrhyw beth yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn, cysylltwch a:

Swyddog Diogelu Data Ysgolion

Cyngor Sir Ynys Mon,

Llangefni,

Ynys Môn

**GRANATIAU**

Grant Amddifadedd Disgyblion 2018-19

Derbyniodd  Ysgol Gymunedol Pentraeth grant GAD o £13,800 am y flwyddyn .

Mae’n ofynnol ar ysgolion bellach i adrodd ar eu gwefan defnydd ac effaith y grant uchod.

Defnyddiwyd grant fel a ganlyn :

• Prynu gwasanaeth dwy athrawes arbenigol i gefnogi disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd

Cafodd y grant effaith positif ar yr unigolion  hynny fu’n mynychu’r cynllun cefnogaeth gyda pob plentyn yn gwneud cynnydd llynedd.

## PLANT AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae'r ysgol yn ymwybodol o'i chyfrifoldeb i ddarparu ar gyfer disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn unol â gofynion Deddf Addysg 1993 ac oherwydd hyn mae Mrs Julie Williams wedi ei phenodi'n Gydlynydd ADY yr ysgol. Mae polisi'r ysgol yn manylu ar y canllawiau i'w dilyn er mwyn cyfarfod â'r anghenion. Gall hyn arwain at gyfeirio'r achos at yr Awdurdod Addysg a chefnogaeth ymarferol gan arbenigwyr megis seicolegydd addysgol, therapydd lleferydd neu athrawon teithiol sy'n arbenigo mewn problemau clyw, golwg, anabledd corfforol neu anawsterau dysgu dwys i'r plant gydag anghenion dwys.

Ystyriwn fod cysylltiad agos â rhieni yn bwysig iawn yn yr achosion hyn ac ymdrechir i sicrhau partneriaeth weithio agos. Trafodir natur yr anawsterau, manylir ar y ddarpariaeth ar gyfer y plentyn a gwahoddir rhieni i'r ysgol i drafod y cynnydd a'r ffordd ymlaen.

## PLANT MEWN GOFAL / LLES

Mae'r ysgol yn credu fod gan bob plentyn, waeth beth yw ei gefndir yr hawl i addysg ragorol. Rydym yn cydweithio gyda'r plant a'r rhieni / gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn botensial.

Y Pennaeth sy'n gyfrifol am sicrhau fod plant sydd mewn gofal o fewn yr ysgol hon yn cyflawni'r gorau y gallent. Mae hi'n cydweithio'n agos â Mrs Meinir Bolton , Swyddog Lles yr AALL er mwyn sicrhau fod yr ysgol yn ateb gofynion y plant hyn. Mae'r ysgol hefyd yn cyflogi athrawon arbenigol i dragedu gwahnaol grwpiau o ddisgyblion gyda grantiau penodol ( GAD A GGA). Yn ogystal â hyn mae'r ysgol yn cydweithio'n agos iawn â nifer o asiantaethau eraill er lles ein plant

## POLISI GWRTH-FWLIO'R YSGOL

**Y POLISI:**

Mae gan yr ysgol bolisi pendant sy'n amlinellu sut rydym yn delio ag achosion o fwlio pan ddigwydd yn yr ysgol.

Mae'r polisi'n cydymffurfio â chanllawiau Gwrth-fwlio (Cylchlythyr 23/2003)

Pan fo'r ysgol yn adnabod achosion o fwlio fe fydd yn dilyn y camau isod:

1. Trafod y digwyddiad gyda'r plant yn unigol.
2. Cynnal cyfarfod gyda'r rhieni/gwarcheidwaid.
3. Cofnodi'r dystiolaeth a gasglwyd.
4. Gweithredu pellach os oes angen

## DIOGELU PLANT

Y Pennaeth yw'r Swyddog Dynodedig Diogelu Plant o fewn yr ysol a chaiff ei chefnogi gan Mrs Julie Williams,yn gweithredu fel yr Is-swyddog Dynodedig Diogelu Plant. Mae'r ysgol yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol er mwyn sicrhau diogelwch pob disgybl. Os oes gennych bryderon gofynnwn i chwi gysylltu gyda'r Pennaeth neu Mrs Julie Wlliams. Mae'n bosib i rieni hefyd cysylltu gyda Theulu Môn os ydynt am drafod unrhyw bryder sydd ganddynt – 01248 725888. Ceir rhagor o wybodaeth am Teulu Môn ar eu gwefan – www.teulumon.cym

## CODI TAL AM WEITHGAREDDAU

Egwyddor sylfaenol Deddf Addysg 1988 oedd y dylai gweithgareddau addysgol fod yn ddi-dâl i bob disgybl. Serch hynny mae gan yr ysgol hawl statudol i ofyn i rieni gyfrannu tuag at gostau gyda'r ddealltwriaeth na fydd unrhyw blentyn yn dioddef anfantais os na all rieni gyfrannu'n ariannol. Mae'r ysgol bob amser yn barod i helpu teuluoedd gyda sefyllfaoedd cyllidol, yn unol â'r Polisi Codi am Weithgareddau. Caiff pob rhiant gyfle i dalu am weithgareddau ychwanegol dros gyfnod o amser neu mewn

un taliad. Ni wrthodir unrhyw blentyn rhag cymryd rhan mewn gweithgaredd neu ymweliad o ganlyniad i ddiffyg taliadau. Gofynnir i rieni dalu cyfraniad at gost cludiant ar gyfer ymweliadau addysgol gan gynnwys y daith i'r Ganolfan Hamdden ar gyfer gwersi nofio.

## ASESU

Cyflwynir adroddiad ysgrifenedig blynyddol i rieni am gynnydd ei plentyn. Asesir plant yn fewnol fel rhan o bolisi asesu'r ysgol. Yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol asesir disgyblion drwy asesiad athro/athrawes ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 2) a Chyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 6). Mae'n rhaid hefyd i ddisgyblion Blynyddoedd 2 – 6 sefyll profion cenedlaethol statudol rhifedd a darllen ym mis Mai bob blwyddyn.

Yn amgaedig ceir canlyniadau asesu agregedig yr ysgol o dan y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer y ddau gyfnod allweddol a'r wybodaeth gymharol genedlaethol (Cymru) yn seiliedig ar ganlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yr oedrannau hyn.

## ASESU AR GYFER DYSGU

Cynhelir nosweithiau rhieni yn ystod y flwyddyn er mwyn i'r rhieni weld gwaith eu plant a thrafod eu datblygiad gyda'r athrawon. Mae pob athro / athrawes yn cadw asesiadau manwl am eu plant ac yn trafod y 'ffordd ymlaen' gyda rhieni yn ystod y noson agored.

## GWAITH CARTREF

Y mae yn bolisi gan yr ysgol i osod gwaith cartref yn rheolaidd, byddwn o bryd i'w gilydd yn gofyn i'r plant gwblhau tasgau gartref. Gall hyn olygu gorffen gwaith, cwblhau tasg benodol, creu cyflwyniadau llafar canfod gwybodaeth, holi rhieni neu aelodau eraill o'r teulu, neu waith dysgu e.e. tablau lluosi, geiriau ar gyfer prawf sillafu. Hoffem bwysleisio eich rôl chi'r rhieni yn hyn a gobeithiwn y byddwch yn cynorthwyo, yn goruchwylio ac yn sicrhau fod tasgau yn cael eu cyflawni hyd gorau gallu pob unigolyn. Cofiwch hefyd bod darllen yn gyson yn rhan bwysig iawn o waith cartref. Gobeithiwn y byddwch yn gwneud defnydd llawn o'r llyfryn Cofnodion Darllen ac yn rhoi eich sylwadau i lawr fel cyfeirnod ychwanegol i'r athrawon.

Croesewir rhieni i drafod gwaith cartref â'r athro/athrawes dosbarth os oes anawsterau o unrhyw fath yn codi.

## RHIENI'N CYNORTHWYO

Rydym yn awyddus i annog rhieni a ffrindiau i ddod i'r ysgol er mwyn cynorthwyo drwy wrando ar blant yn darllen, cynorthwyo gyda gwaith crefft neu arddio a chynorthwyo i oruchwylio plant ar ymweliadau addysgol. Bydd rhaid i bawb sy'n gwirfoddoli yn yr ysgol hon fod wedi derbyn gwiriad heddlu DBS cyn iddynt gychwyn gweithio gyda'r plant.

Mawr obeithiwn y gall rhai ohonoch ein cynorthwyo yn ystod y flwyddyn. Peidiwch â phoeni os na fedrwch roi o'ch amser yn rheolaidd, (e.e. yn wythnosol) gallwch ddod yn achlysurol os yw hynny'n haws. Yn sicr mae'r athrawon yn gwerthfawrogi yn fawr iawn cael pâr o ddwylo neu ddwy glust ychwanegol o bryd i'w gilydd, felly gadewch i ni wybod os hoffech helpu - rydym yn siŵr o wneud defnydd ohonoch!

## YMDDYGIAD AC YMAGWEDDAU

Rhoddir blaenoriaeth uchel i ymddygiad ac ymagweddiad positif o fewn yr ysgol er mwyn sicrhau fod yr ysgol yn cyflawni ei phwrpas, sef datblygu twf a datblygiad pob plentyn. Mae'r ysgol hon yn annog plant i fod yn hunan disgybledig, yn gyfrifol ac i barchu eraill. Gwyddom y cawn eich cefnogaeth fel rhieni yn hyn o beth. Amlinellir y disgwyliadau hyn a'r camau gweithredu ym mholisi Hyrwyddo Ymddygiad a Disgyblaeth a rheolau'r ysgol.

## CYFLE CYFARTAL

Nod yr ysgol yw:
• Sicrhau yr un cyfleoedd i'r holl ddisgyblion o ba bynnag gefndir cymdeithasol y dônt, cyfleoedd cyfartal i fechgyn a merched, i blant galluog iawn a phlant llai galluog.
• Meithrin agweddau cadarnhaol mewn perthynas â hil a chrefydd a rhyw.
• Osgoi cyflyru ac ystrydebu, yn enwedig mewn perthynas â'r cwricwlwm.
Mae gan yr ysgol ystod o bolisïau sy'n ymwneud â hyrwyddo cynhwysiad gwahanol ddisgyblion. Mae'r Polisi Hygyrchedd yn cyfeirio at y trefniadau i hwyluso mynediad i ddisgyblion ag anabledd. Gwneir pob ymdrech i sicrhau nad ydynt yn cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill.

## Y DREFN GWYNO

Mae'r Corff Llywodraethu yr ysgol, yn unol â gofynion Adran 29 Deddf Addysg 2002, wedi sefydlu trefn ar gyfer trin cwynion gan rieni.
Bydd y Corff Llywodraethol yn ystyried canllawiau'r Cynulliad Cylchlythyr 03/2004 pan ddaw unrhyw gwyn i law. Bydd pob broses yn dilyn y drefn a nodir yn y ddogfen. Mae'r Llywodraethwyr wedi sefydlu trefn tri cham i drin a chwynion.


**Cam 1**
Cwyn lafar/ysgrifenedig i aelod o staff neu'r pennaeth. Gwneir pob ymdrech gan y pennaeth i ddatrys y gwyn ar y cam hwn.

**Cam 2**
Cwyn ysgrifenedig i'r pennaeth a gaiff ei archwilio a'r canlyniad yn cael ei gyflwyno yn ysgrifenedig i'r achwynydd.

**Cam 3**
Os nad yw'r achwynydd yn fodlon â'r canlyniad fe all y Corff Llywodraethu ystyried y mater. Clywir y gwyn gan Bwyllgor Cwynion y Corff. Yn dilyn cwblhau Cam 3 gall y corff llywodraethol neu'r achwynydd gysylltu â'r AALl i adolygu'r drefn.
Dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gŵyn gyda'r pennaeth.

## CANLYNIADAU BLWYDDYN 2 CYFNOD SYLFAEN HÂF 2018


| CS Blwyddydn 2 | YSGOL | |
|---|---|---|
| | Deilliant | |
| | 5+ | 6+ |
| Iaith a chyfathrebu | 73% | 26.7 |
| Datblygiad Mathamategol | 86.7% | 13.3 |
| Datblygiad Personol a Chymdeithasol | 100% | 46.7% |




| | Cy | Sa | Ma | Pe | DCS |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | 73.3 | 0.0 | 86.7 | 100.0 | 73.3 |
| Sir | 79.5 | 81.5 | 86.0 | 93.7 | 78.3 |
| CYNNAL | 82.0 | 79.8 | 86.0 | 93.4 | 80.4 |
| FSM | 81.4 | 92.9 | 86.8 | 93.3 | 81.4 |

**CANLYNIADAU BLWYDDYN 6 CA2 2018**

| **CA2** | **YSGOL** | |
|---|---|---|
| | **L4** | **L5** |
| **Cymraeg** | **90.09%** | **36.4%** |
| **Saesneg** | **90.09%** | **27.3%** |
| **Mathemateg** | **90.09%** | **27.3%** |
| **Gwyddoniaeth** | **90.9%** | **27.3%** |




| | Cy | Sa | Ma | Gw | DPC |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | 90.9 | 90.9 | 90.9 | 90.9 | 90.9 |
| Sir | 75.6 | 89.9 | 90.6 | 91.4 | 88.2 |
| CYNNAL | 85.6 | 91.1 | 91.6 | 92.5 | 90.0 |
| FSM | 91.0 | 93.7 | 93.9 | 95.3 | 92.5 |

## CANRAN PRESENOLDEB

| **Tymor yr Hydref** | **Tymor y Gwanwyn** | **Tymor yr Haf** |
|---|---|---|
| **95.5%** | **94.9%** | **94.5%** |
| **Blwyddyn 93.9 %** | **TARGED 95.5%** | **Heb gyrraedd y targed** |
| **Absenoldebau gyda caniatâd 5.9%** | | **Heb ganiatâd 0.4%** |
| **Targedau Presenoldeb Tair Blynedd** | | |
| **2018** | **2019** | **2020** |
| **95.5%** | **95.8%** | **96%** |

## Y CORFF LLYWODRAETHU

Cyfansoddwyd y Corff yn unol â Deddf Addysg 1986.

| Enwa | Yn Cynrychioli |
|---|---|
| Mr Alan Southall<br>Cadeirydd | Rhieni |
| Mrs Helen Barlow | Rhieni |
| Mr Colin Heath | Cynghorydd |
| Mrs Alyson Walsh | Cyfetholedig |
| Mrs Ffion Taylor | Cyfetholedig |
| Miss Dawn Hughes | Staff Ategol |
| Mrs Julie Williams | Athrawon |
| Miss Lynne Jones | Pennaeth |
| Mr Elliott Riley-Walsh | Cyngor Cymuned |
| Mr Bari Gwilliam | Rhiant |
| Mrs Olwen Hughes | Clerc |

**EICH HAWL I OFYN AM GYFARFOD GYDA CHORFF LLYWODRAETHU'R YSGOL**

Roedd yn arfer bod yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni. Cafodd y gofyniad hwnnw ei ddileu gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf). Yn lle hynny, cyflwynwyd trefniadau newydd fel y bo modd i rieni ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu mewn unrhyw flwyddyn ysgol, i drafod materion sy'n peri pryder iddyn nhw. Os yw rhieni am arfer eu hawliau dan y Ddeddf i gynnal cyfarfod, bydd angen bodloni 4 gofyniad:

**1. Bydd angen i rieni gyflwyno deiseb o blaid cynnal cyfarfod.**
Bydd angen i rieni o leiaf 10% o rieni disgyblion cofrestredig yr ysgol lofnodi'r ddeiseb. Yn achos deiseb ar bapur, rhaid rhoi llofnod ysgrifenedig, yn ogystal ag enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol. Os yw'r ddeiseb yn un electronig, bydd angen i riant 'lofnodi' drwy deipio ei enw a bydd rhaid rhoi enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a chyfeiriad e-bost pob rhiant sy'n 'llofnodi'r' ddeiseb electronig. Roedd 108 o blant wedi'u cofrestru gyda'r ysgol hon ar ddechrau'r flwyddyn academaidd hon. Gallwch gysylltu â swyddfa'r ysgol i gael gwybod yn union faint sydd ar y gofrestr ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.

**2. Rhaid galw'r cyfarfod i drafod materion sy'n effeithio ar yr ysgol.**
Ni ellir galw cyfarfod i drafod materion fel cynnydd disgyblion unigol, neu er mwyn gwneud cwyn yn erbyn aelod o staff yr ysgol neu aelod o'r corff llywodraethu. Dylai'r ddeiseb gynnwys manylion cryno am y mater(ion) i'w trafod, a'r rhesymau dros alw'r cyfarfod. Dylid dangos yr wybodaeth honno'n glir ar frig y ddeiseb, a dylai'r rhieni lofnodi oddi tani.

**3. Ceir cynnal uchafswm o 3 chyfarfod yn ystod y flwyddyn ysgol**
Mae'r gyfraith yn caniatáu i rieni arfer eu hawliau i ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol.

**4. Rhaid bod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol**
Mae'n amod dan y gyfraith fod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol pan fo'r ddeiseb yn dod i law, a hynny fel y bo modd cynnal y cyfarfod. Ystyr "diwrnod ysgol" yw diwrnod pan fo'r ysgol yn agored i ddisgyblion: nid yw'n cynnwys penwythnosau, gwyliau cyhoeddus, gwyliau ysgol na diwrnodau Hyfforddiant mewn Swydd (HMS).

Dyma'r cyfeiriad ar gyfer cyflwyno deiseb yn gofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol: Cadeirydd Llywodraethwyr, Ysgol Gymunedol Pentraeth, Pentraeth, Ynys Môn LL75 8UP

## STAFF YR YSGOL MEDI 2018

**Pennaeth**

**Miss. Lynne Jones**

**Athrawon**

**Cyfnod Sylfaen**

**Miss Mari Evans**
**Mrs Anwen Davies**
**CA2**

**Mrs. Stephanie Hughes**

**Mrs.  Julie Roberts Williams**

**Gweithwyr Allweddol/Cymorthyddiom**

Mrs Tracey Williams
Mrs Sian Owen
Miss Janice Jones
Miss Dawn Hughes
Mrs Mandy Williams ( Integreddio)

**Staff y Gegin (Cwmni Caterlink)**
Mrs Joanne Cox

**Goruchwyliwr Amser Cinio**
Mrs Mandy Williams a Ms Dawn Hughes

**Agor a Cau /Glanhwraig**
Miss Dawn Hughes

**Clerc Cinio**
Ms Dawn Hughes

## DYDDIADAU GWYLIAU 2018/19
**Tymor:**

**Hydref 2018** 3 Medi 2018 - 21 Rhagfyr 2018

**Gwanwyn 2019** 7 Ionawr 2019 - 12 Ebrill 2019

**Haf 2019** 29 Ebrill 2019 - 22 Gorffennaf 2019

Bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ar ddydd Mawrth, 4ydd o Fedi, 2018.
**Gwyliau:**
29 Hydref 2018 - 2 Tachwedd 2018 (Hanner-Tymor) 24 Rhagfyr 2018 - 4 Ionawr 2019 (Gwyliau'r Nadolig) 25 Chwefror 2019 - 1af o Fawrth 2019(Hanner-Tymor) 15fed -26ain o Ebrill 2019 (Gwyliau'r Pasg) 6 o Fai 2019 (Calan Mai)

27ain – 31ain o Fai 2019 (Hanner-Tymor) 23 Gorffennaf – 31 Awst 2018 (Gwyliau'r Hâf)

**Bydd yr ysgol yn cau i blant ar Orffennaf y 19eg 2019**

**Dyddiadau Hyfforddiant mewn swydd pan fydd yr ysgol ar gau i blant:**
**3/9/18**
**5/11/18**
**22/2/19**
**3/6/19**
**22/7/19**